Rhifyn 20 / Ebrill 2021

# Y Cliciadur

Newyddion o Gymru a Thu Hwnt



Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

Cymraeg – Byd Addysg / In Education

cynnal


**Awduron:** Haf Llewelyn, Mali Williams **Golygydd:** Karen MacIntyre Huws

## I LAN Y MÔR?



**Gyda'r haf ar ei ffordd bydd nifer ohonom yn gobeithio cael mynd i lan y môr gyda'n teuluoedd. Ond mae pryder fod llawer o wastraff yn dal i gael ei olchi ar y traeth. Gyda'r pandemig daeth math gwahanol o sbwriel i ddifetha ein traethau - ie, masgiau a menig plastig.**


- Nodwyd fod bron i **30%** o draethau erbyn hyn wedi gweld sbwriel yn gysylltiedig â'r pandemig e.e. masgiau a menig plastig.






**207**
**o eitemau**

- Cafodd **207** o eitemau Amddiffyn Personol (PPE) eu darganfod mewn **385** o ddigwyddiadau glanhau.




- Ar ben hynny, mewn digwyddiadau glanhau eraill (heb fod ar lan y môr) nododd **69%** eu bod wedi gorfod codi eitemau Amddiffyn Personol.



Wrth gwrs mae hyn yn sefyllfa bryderus iawn gan fod anifeiliaid a chreaduriaid o bob math yn cael eu niweidio gan blastigion. I helpu, chwilia am fanylion am ymgyrch glanhau traeth sy'n digwydd yn dy ardal di.
Am fwy o wybodaeth am sut y medri di helpu, cer i:
https://bit.ly/3fTg2uk

## ETHOLIADAU'R SENEDD



**Ar y 6ed o Fai bydd Etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Bydd cyfle i bawb sydd dros 16 oed ac sydd yn galw Cymru yn gartref i bleidleisio dros bwy fydd yn eu cynrychioli yn y Senedd. Nhw wedyn fydd yn gwneud penderfyniadau am faterion fel Addysg, Iechyd a'r Amgylchedd. Mae gan bawb yng Nghymru ddwy bleidlais yn yr etholiad:**

- **Pleidlais etholaethol** i ddewis person i gynrychioli ardal leol, sef etholaeth. Mae 40 etholaeth yng Nghymru.
- **Pleidlais ranbarthol** i bleidleisio am blaid i gynrychioli rhanbarth ac mae 5 rhanbarth yng Nghymru.

**Os yw plaid yn ennill mwyafrif yna gall reoli'r Senedd a daw arweinydd y blaid yn Brif Weinidog Cymru. Dyma arweinwyr y 3 prif blaid:**

**Mark Drakeford**
**Llafur**



Llafur Cymru

**Adam Price**
**Plaid Cymru**



Plaid Cymru

**Andrew RT Davies**
**Ceidwadwyr**



Ceidwadwyr Cymreig

I wylio fidio yn egluro mwy am beth ydy Etholiad y Senedd, dilyna'r linc https://bbc.in/3g6VtdM



**INFFOGRAFFIG**
Cefnforoedd
TUDALEN 2




**DAN Y CHWYDD WYDR**
Dyna greadur gwych!
TUDALEN 6



**TI'N SEREN**
Cadw gwenyn
TUDALEN 8

## NEWYDDION FFLACH



NASA/JPL-Caltech/ASU

### Creu Hanes wrth Hedfan Hofrennydd

Cofnodwyd Ebrill 19, 2021 fel diwrnod hanesyddol arbennig wrth i hofrennydd hedfan ar blaned arall am y tro cyntaf erioed. Llwyddodd NASA i hedfan hofrennydd o'r enw **Ingenuity** am ychydig eiliadau ar y blaned Mawrth, gan yrru lluniau i'r ddaear drwy robot a lloeren **Perseverance**. Mae'r atmosffêr tenau a diffyg disgyrchiant ar y blaned Mawrth yn ei wneud yn anodd iawn hedfan, ac roedd llafnau'r hofrennydd yn gorfod troelli ar gyflymdra o 2,500 rpm (sy'n gyflym iawn, iawn!). Mae NASA yn gobeithio bydd Ingenuity yn hedfan pedair gwaith eto, gyda'r bwriad o fynd ychydig yn hirach ac yn bellach bob tro.

# DYDDIAU I'R DYDDIADUR

## EBRILL

**Ebrill 19 - Ebrill 30**

**Big Pedal -** Sustrans (am fwy o wybodaeth cer i tud 6 'Trysorau Cymru')

**Ebrill 28**

### Diwrnod Atal Gwastraff Bwyd (*Stop Food Waste Day*)



Diwrnod yw hwn i godi ymwybyddiaeth o wastraff bwyd ar hyd a lled y byd. Mae arbenigwyr yn meddwl fod tua thraean (1/3) o'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu dros y byd yn cael ei wastraffu neu ei golli. Mae **Diwrnod Atal Gwastraff Bwyd** yn gobeithio newid y ffordd mae pobl yn defnyddio bwyd sydd dros ben, a chymryd mantais gorau o'r bwyd sydd ar gael.

## MAI

**Mai 1**

### Calan Mai

**Mai 2**

### Diwrnod Côr y Wig (*Dawn Chorus Day*)

I ddarllen am beth ydi côr-y-wig clicia ar y linc i Rhifyn 2: https://bit.ly/3vBzfWu. Dyma linc i wefan yr RSPCA lle gelli di wrando ar ganeuon gwahanol adar, a dysgu mwy amdanynt: https://bit.ly/2NoXBBF

**Mai 3-9**

### Wythnos Di-Sgrîn (*Screen Free Week*)

**Mai 5**

### Diwrnod Cenedlaethol Beicio i'r Ysgol (*National Bike to School Day*)

**Mai 13**

### Eid-Ul-Fitr

Gŵyl grefyddol y Mwslemiaid yw Eid-Ul-Fitr. Mae'n dathlu diwedd **Ramadan**, sef mis o *ymprydio* (mynd heb fwyd) rhwng gwawrio a machlud.



**Mai 20**

### Diwrnod Gwenyn y Byd (*World Bee Day*)

I ddarllen pob math o bethau am wenyn, dilyna'r linc i Rifyn 3 https://bit.ly/3cmEEtg.
Am gyfarwyddiadau sut i wneud Gwesty Gwenyn cer i https://bit.ly/2P4zeds.



**Mai 22**

### Diwrnod Rhyngwladol Amrywiaeth Biolegol

gan y Cenhedloedd Unedig (*UN International Day for Biological Diversity*)

**Mai 31 - Mehefin 4**

### Eisteddfod T

## MEHEFIN

**Mehefin 5**

### Diwrnod Amgylchedd y Byd (*World Environment Day*)



**Mehefin 8**

### Diwrnod Cefnforoedd y Byd (*World Oceans Day*)

Gweler yr inffograffeg isod.

**Mehefin 20**

### Sul y Tadau



**Mehefin 21**

### Hirddydd Haf

I ddarllen am beth sy'n digwydd ar y diwrnod yma dilyna'r linc i Rifyn 15: https://bit.ly/30Ptkiq ac os wyt ti am ddarllen am yr hyn sy'n digwydd ym Mryn Celli Ddu ar Hirddydd Haf dilyna'r linc yma https://bit.ly/3vteixb.

## O AMGYLCH Y BYD



### BLE? CEFNFOROEDD




## CEFNFOROEDD

I Ddathlu Diwrnod Cefnforoedd y Byd ar 8fed Mehefin dyma Inffograffig Cefnforol






Cyrff enfawr o ddŵr yw cefnforoedd, sydd yn gorchuddio tua 71% o wyneb y ddaear.

Mae 5 o gefnforoedd mawr ar y ddaear:

1. Y Môr Tawel yw'r mwyaf, ac ynddo mae 50.1% o'r holl ddŵr môr ar y blaned.
2. Môr yr Iwerydd yw'r 2il fwyaf ac ynddo mae 23.3% o'r holl ddŵr môr ar y blaned.
3. Cefnfor India yw'r 3ydd mwyaf ac ynddo mae 19.8% o'r holl ddŵr môr ar y blaned.
4. Cefnfor y De sydd nesaf gyda 5.4% o'r holl ddŵr môr ar y blaned.
5. Y cefnfor lleiaf yw Cefnfor yr Arctig, sydd â 1.4% o'r holl ddŵr môr ar y blaned.

**11,034 metr**

Y lle dyfnaf o'r holl gefnforoedd yw Ffôs Mariana yn y Môr Tawel, sydd yn 11,034 metr o ddyfnder (Mae hyn bron yn 7 milltir!)

Ffôs Mariana

Gallai Mynydd Everest, sydd yn 8,848 metr o daldra, ffitio yn hawdd y tu mewn i'r pwynt dyfnaf.

Edrycha am y seren fôr ar y map i weld lleoliad y ffôs yn y byd.

**230,000**

Mae'r cefnforoedd yn gartref i o leiaf 230,000 o rywogaethau, ond dim ond tua 20% ohonynt sydd wedi cael eu hastudio!



Dim ond tua **20%!**

Y Cefnfor Tawel yw cartref y strwythur byw mwyaf ar y blaned - y Bariff Cwrel Mawr sydd yn mesur tua **2,600km.**



# Cer Amdani

**Byddi di angen:**
- Papur neu ffabrig mewn gwahanol liwiau a phatrymau.
- Templed siâp hecsagon
- Pensil
- Siswrn
- Glud (os wyt am eu gludo)




# HWRÊ I'R HECSAGON!

**Rydym yn dathlu gwenyn yn y Rhifyn yma felly dyma edrych ar y celloedd sydd mewn cwch gwenyn am ysbrydoliaeth.**



**Mae siapiau hecsagon yn ddiddorol gan eu bod yn brithweithio, sef yn ffitio gyda'i gilydd heb adael bwlch, ac mae'n bosib creu patrymau arbennig wrth eu gosod mewn gwahanol ffyrdd.**

**1**



Cer o amgylch y templed hecsagon gyda phensil. Cofia wneud y marc pensil ar gefn y papur a chreu rhes yn sownd yn ei gilydd er mwyn cael llawer allan o un darn o bapur.

**2**



Torra dy siapau hecsagon allan yn ofalus gyda siswrn. Mae'n bwysig bod yn ofalus i dorri ar y llinellau er mwyn i dy siapau allu brithweithio. Byddi di angen o gwmpas 20 hecsagon neu fwy i greu patrwm da.

**3**



Gosod dy hecsagonau allan ar bapur cefndir nes dy fod yn hapus gyda'r patrwm. Pan wyt yn hapus gelli di eu gludo.



Mae'n bosib gwneud siâp blodyn.




Mae'n bosib gwneud rhesi.

Gelli di hefyd eu gosod mewn ffordd sydd ddim yn brithweithio er mwyn creu siapau diemwnt neu seren yn y bylchau.






## TEMPLEDI




## Wyddost ti?

Mae traddodiad cryf o wneud cwiltiau yng Nghymru ac mae gan **Amgueddfa Cymru** gasgliad arbennig ohonynt yn dyddio nôl i'r ddeunawfed ganrif. Byddai pobl yn defnyddio darnau o hen ffabrig o ddillad a chreu cwiltiau bendigedig, llawer ohonynt yn defnyddio y siâp hecsagon neu'r 'Clytwaith Chweochrog'.





Amgueddfa Cymru


# PWYSO A MESUR

## HECSAGON HUDOL

**Yn y flwyddyn 1888, cyhoeddodd Ernst von Haselberg broblem yr Hecsagon Hudol am y tro cyntaf.**

*"Yn yr hecsagon yma, gallwn osod y rhifau o 1 i 19 fel bod swm pob rhes syth mewn unrhyw gyfeiriad (gyda 3, 4 neu 5 rhif) yn dod i gyfanswm o 38 bob tro."*

Mae rhai rhifau wedi eu rhoi i mewn i chi er mwyn gwneud pethau yn haws, felly mae angen i chi ddefnyddio pob rhif o 1 i 19 fel bod pob rhes yn adio i wneud 38.






# EIN BYD GWYRDD



## BIOAMRYWIAETH

**Mae 22 Mai yn Ddiwrnod Rhyngwladol Amrywiaeth Biolegol Y Cenhedloedd Unedig (UN International Day for Biological Diversity) ond beth ydi amrywiaeth biolegol neu fioamrywiaeth?**

> **Bioamrywiaeth**
> [bio • am • ryw • iaeth]
>
> y gwahanol fathau o anifeiliaid a phlanhigion yn y byd, neu mewn cynefin arbennig. Mae'n cael ei ystyried yn bwysig ac yn fanteisiol i gael lefel uchel o fioamrywiaeth.

Rydym yn defnyddio'r gair **bioamrywiaeth** i ddisgrifio'r holl wahanol fathau o fywyd ar y ddaear, yn **anifeiliaid** ac yn **blanhigion**. Mae pobl yn dibynnu ar fioamrywiaeth iach er mwyn gallu byw ar y ddaear, dyma sy'n rhoi ocsigen, bwyd, dŵr ffres, pridd ffrwythlon, meddyginiaethau, lloches, a hinsawdd sefydlog i ni.

Yn ôl arbenigwyr mae 3 prif beth yn bygwth bioamrywiaeth:

- Colli neu newid mewn cynefin
- Llygredd
- Newid hinsawdd



## Bioamrywiaeth yng Nghymru:

Mae gwyddonwyr yn credu bod dros 50,000 o rywogaethau gwahanol ar dir a môr Cymru. Ers talwm byddai posib gweld blaidd, arth, baedd gwyllt a chathod gwyllt ond nid ydynt yn byw yma erbyn hyn. Mae gwyddonwyr hefyd yn poeni fod rhywogaethau eraill yn mynd yn brin, fel y bele (pine marten) y wiwer goch a llawer o anifeiliaid oedd yn arfer bod yn niferus fel draenog, gwiber, gwenyn a dyfrgi. Yn ogystal ag anifeiliaid, mae hyd at 10% o flodau gwyllt Cymru mewn perygl o ddiflannu.

**Mae rhai rhywogaethau i'w gweld yng Nghymru ac nid yn unman arall yn y byd, gan gynnwys:**



Lili Maesyfed
Gerallt Pennant

Y cor-rosyn rhuddfannog



Velela

Lili'r Wyddfa



Gerallt Pennant



Y lle gorau i weld y pili-pala, Britheg y Gors (*Marsh Fritillary*) yw'r Mynydd Mawr, Sir Gaerfyrddin.
Iain Leach



Y lle gorau i weld gwyfyn y Glesyn Serennog yw yn y Gogarth, ger Llandudno.
Bob Eade

Mae gan Gymru 20 ardal arbennig sy'n gwarchod adar, a 92 o ardaloedd arbennig i warchod rhywogaethau prin a chynefinoedd dan fygythiad. Mae'r rhain yn helpu i gadw bioamrywiaeth Cymru yn iach.


# LLWYFAN

Llenyddiaeth | Teledu | Celf | Crefft | Cerddoriaeth | Gwefan




**Os wyt ti'n hoffi darllen neu eisiau gwybod am lyfrau addas i dy oedran di yna mae hon yn wefan ardderchog.**

Mae **Sôn am Lyfra** yn wefan lle gelli di weld llyfrau Cymraeg newydd, darllen adolygiadau, dysgu mwy am awduron a darllen y newyddion diweddaraf am lyfrau.




**Mae ysgolion Cymru i gyd wedi derbyn copi'r llyfr yma:**

Efallai dy fod wedi ei weld yn dy ysgol di? Dyma beth oedd gan **Sôn am Lyfra** i'w ddweud am y llyfr:

*Stori am gyfeillgarwch, gobaith a phwysigrwydd caredigrwydd. Dyma stori annwyl a theimladwy iawn, sy'n defnyddio peth hiwmor i drafod pwnc sy'n reit ddwys.*

Dilyna'r linc yma i fynd i'r wefan: https://www.sonamlyfra.cymru/




Mae 'Sôn am Lyfra' hefyd yn awgrymu '10 i'w darllen cyn troi'n 10', i gael gwybod beth ydynt, dilyna'r linc yma: https://bbc.in/3lMusgH





# STORI GYFRES

# DYMP O LE

## PENNOD 3/3

Clicia yma i weld pennod 2

'Wel?' Roedd y dyn yn y siwt ddu yn dal i syllu, ei lygaid yn tanio. 'Fedri di ddim darllen?' meddai a phwyntio at yr arwydd. 'Beth mae'n ei ddweud?'
'Cccc..cadwch allan!' sibrydodd Jo.
'Yn union!Felly cer o'ma.' rhuodd y dyn.
'Ond...' meddai Jo wedyn.
'Ond beth?' meddai'r dyn, 'Beth wyt ti'n wneud yma beth bynnag?'
'Ym... wel, dw i'n chwilio am rywbeth.' meddai Jo, ei feddwl yn rasio, yn ceisio meddwl am esgus i fod yno. 'Ym... dw i wedi



clywed fod yr hen dŷ yn llawn ysbrydion - ydy hynny'n wir?'
'Paid â bod yn wirion!' meddai'r dyn, 'Does 'na ddim ysbrydion siŵr iawn. Mi fyddi di'n dweud wrtha' i nesaf bod 'na dylwyth teg yma!' Chwarddodd y dyn yn annifyr, 'Neu Eira Wen a'r corachod! Neu'r blaidd hwnnw oedd am fwyta nain yn y stori!' meddai gan chwerthin yn uwch. Yna, rhuodd yn flin 'Dos o'ma rŵan, cyn i mi gael digon ar dy storiâu gwirion di!'
Trodd y dyn ei gefn ar Jo a cherdded yn ôl at y plasty.
Wyddai Jo ddim beth i'w wneud. Beth am Mali? Penderfynodd Jo yn sydyn bod rhaid iddo nôl Nain, byddai hi'n gwybod beth i'w wneud.
Gyda'i wynt yn ei ddwrn cyrhaeddodd dŷ Nain, a dweud yr hanes wrthi. Yna brysiodd y ddau yn ôl drwy'r coed at yr hen blasty. Erbyn hynny roedd yr haul bron â machlud a chysgodion y coed yn creu siapiau tywyll ym mhob man. Aeth ias i lawr cefn Jo, ni fedrai feddwl am yr hen blasty fel gwesty moethus, gwyddai mai byd natur oedd wir berchen y lle bellach.
Roedd car y dyn siwt ddu yn dal yno o flaen y ffens, ac roedd drws y plasty ar agor.
'Mae'n rhaid ei fod tu mewn yn rhywle.' sibrydodd Jo, 'Ond lle



mae Mali?'
'Tyrd rhaid i ni fynd i chwilio.' meddai Nain yn benderfynol. 'Fedrwn ni ddim gadael Mali i mewn yna ar ei phen ei hun.'
Sleifiodd y ddau i mewn trwy'r drws. O'r ystafell ar y dde gallai'r ddau glywed llais y dyn yn siarad ar y ffôn. Yn sydyn daeth sgrech uchel o'r atig. 'Whwwwsh...'
Plymiodd siâp gwyn o'r llofft a hedfan trwy'r drws lle'r oedd y dyn yn sefyll. Tylluan! Rhoddodd yr aderyn un sgrech uchel nes bloeddiodd y dyn mewn ofn.
Rhuthrodd am y drws a'r dylluan ar ei ôl, ei chrafangau allan. Yn y drws roedd siâp arall wedi ymddangos, siâp merch mewn clogyn coch.
'Nain!' galwodd y siâp arall.
Arhosodd y dyn am funud, ei lygaid fel soseri.
'NAAA!' gwaeddodd y dyn gan ruthro heibio'r ferch, 'NAAA!'
Rhedodd y dyn am ei gar a sgrialodd y car trwy'r coed ac am y ffordd fawr, gyda phridd yn tasgu i bob man. Unwaith eto, dychwelodd tawelwch dros y goedwig.
'Mali!' galwodd Jo, 'Wyt ti'n iawn?'
'Ydw!' meddai, 'Dyna wên fawr sydd ganddo' chi Nain!'
Chwarddodd y tri.
Yn y papur newydd yr wythnos wedyn roedd pennawd yn dweud:

**'Gadael Coed y Llys'.**

Darllenodd Nain y stori'n uchel,

**Mae datblygwyr wedi dweud na fyddan nhw'n troi hen blasty Coed y Llys yn westy wedi'r cwbl. Dywedodd un o'r datblygwyr - 'Rydym wedi penderfynu peidio â dal ymlaen gyda'r cynlluniau, gan fod gormod o waith yno. Fyddai neb eisiau mynd yno ar eu gwyliau beth bynnag...**

'Na!' cytunodd Nain gan chwerthin, 'Neb ond y moch daear a'r dylluan, diolch byth!'





## Be' ydi dy farn di?

### YR HAWL I BROTESTIO


Weithiau mae pobl yn anfodlon ynglŷn â rheolau neu ddigwyddiadau arbennig. Efallai bydd protest yn cael ei threfnu i ddangos teimladau dros neu yn erbyn rhywbeth. Gall protestiadau fod yn ddigwyddiadau enfawr, gyda miloedd o bobl yn casglu. Dro arall efallai mai ychydig iawn o bobl fydd yn dod at ei gilydd i ddangos eu hochr' i 'ddatgan eu barn'. Mae rhai pobl yn ofni fod gwleidyddion yn Llundain yn ceisio cyfyngu* ar hawliau pobl i brotestio. Ond mae eraill yn dweud y dylai deddfau gael eu pasio i roi stop ar brotestiadau mawr. Beth ydy dy farn di? Dyma ddwy farn wahanol:



*Cyfyngu: gwneud rhywbeth yn llai.



- Dw i ddim yn credu y dylai hawl pobl i brotestio gael eu cyfyngu*.
- Mae hawl pobl i brotestio yn hawl pwysig iawn. Pan mae protestiadau yn cael eu stopio, yna mae hawl pobl i ddweud eu barn hefyd yn cael eu tawelu.
- Mae protestiadau heddychlon wedi bod yn bwysig dros y blynyddoedd, gan fod pobl gyffredin yn cael cyfle i ddangos eu barn heb ofni cael eu cosbi neu erlid.
- Mae hawl pobl i brotestio a dangos barn yn hanfodol - mae'n dangos fod bywydau a barn pawb yn bwysig ac yn werth gwrandawiad teg.



- Dw i ddim yn credu y dylai pobl gael yr hawl i drefnu protestiadau mawr.
- Mae'n costio llawer iawn i gael heddlu i reoli protestiadau mawr. Gall yr arian gael ei wario ar bethau eraill.
- Mae protestiadau mawr yn aml iawn yn troi'n wyllt a threisgar, ac mae'r protestwyr yn gwneud llawer o ddifrod.
- Mae pobl yn gallu dweud eu barn drwy fwrw pleidlais. Yn y wlad hon, mae gan bawb yr hawl i bleidleisio, felly dyna'r ffordd o ddangos barn - nid trwy brotestio.

# DAN Y CHWYDD WYDR

## DYNA GREADUR GWYCH!

**Rydym yn rhannu ein cartrefi a gerddi gyda llawer o greaduriaid bach diddorol. Er ein bod yn edrych ar rai pryfaid neu drychfilod fel pla, mae ganddyn nhw i gyd le yn ein hecosystem, ac mae'r creaduriaid bach yma yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i iechyd ein planed.**
**Dyma rai creaduriaid anhygoel:**

### Buwch Goch Gota

- Chwilod ydyn nhw.
- Maen nhw'n cael croeso yn yr ardd gan eu bod yn bwyta aphidiau.
- Mae yna fwy na 40 gwahanol fathau o Fuwch Goch Gota yng Nghymru. Nid yw pob un yn lliwgar.
- Y rhai mwyaf cyffredin yng Nghymru yw'r rhai coch neu felyn gyda sbotiau tywyll. Y Fuwch Goch Gota sydd i'w gweld amlaf yw'r un gydag adenydd coch a 7 smotyn du.
- Mae'r lliw llachar yn rhybuddio pethau sydd am eu bwyta eu bod yn blasu'n ofnadwy!



**Ffaith: Ysgerbwd allanol sydd gan chwilod fel y fuwch Goch Gota. Felly yn wahanol i fodau dynol ni fydd chwilod yn tyfu'n fwy wedi iddynt gyrraedd eu maint oedolyn.**

### Hwrli Bwm/ Cacynen Bwm


- Mae pob gwenynen yn bwysig gan ei bod yn hedfan o flodyn i flodyn yn helpu gyda'r broses beillio.
- Mae dros 25 math o hwrlwi bwm yng Nghymru.
- Maen nhw'n ddu gyda streipiau melyn.
- Mae'r hwrlwi bwm yn byw mewn nythod ac mae tua 400 o wenyn yn gallu byw mewn un nyth.
- Maen nhw'n cael eu rheoli gan frenhines ac yn y gwanwyn bydd hi'n deffro wedi cysgu trwy'r gaeaf. Bydd yn mynd allan i chwilio am neithdar yn fwyd.
- Yna bydd yn dod o hyd i le da i wneud nyth a dodwy wyau. Bydd y rhai bach cyntaf yn hedfan o'r nyth i chwilio am baill a neithdar i fwydo gweddill y teulu.




**Ffaith: Mae gan yr hwrli bwm 4 adain ac maen nhw'n medru curo eu hadenydd 240 gwaith mewn eiliad.**

### Morgrugyn

- Mae morgrug yn byw mewn coloni enfawr, ac maen nhw'n arbennig o dda am gysylltu gyda'i gilydd. Maen nhw'n gallu danfon neges i forgrug eraill trwy adael arogl, neu trwy gyffwrdd ei gilydd gyda'u teimlyddion.
- Maen nhw'n arbennig o gryf. Mae un morgrugyn yn gallu codi 20 gwaith ei bwysau ei hun. Mae hynny fel petai ni'n gallu codi car ar ein hysgwyddau!
- Nid oes ganddynt glustiau. Maen nhw'n clywed trwy 'deimlo' symudiadau bach gyda'u traed.





Luc Viatour

### Pryfaid yn cuddio

**Blodyn braf...?**

Nage wir - Mantis Tegeirian ydy o. Mae'r Mantis arbennig yma yn byw ym Malaysia. Mae'n edrych yn union fel blodyn tegeirian (orchid). Mae ganddo dyfiant ar ei goesau sy'n edrych fel petalau pinc a gwyn.



**Dim ond darn o bren... Neu bryf pric?**

Does dim pryfaid pric sy'n gynhenid i Wledydd Prydain, ond mae rhai i'w gweld yn y gwyllt yn ne Lloegr. Maen nhw'n byw mewn coed neu lwyni, yn arbennig mewn llwyni prifet. Maen nhw'n tyfu trwy fwrw'r hen groen a thyfu croen newydd. Byddan nhw'n tyfu trwy'r haf, felly'r amser gorau i ddod o hyd i un yw mis Medi.

**Pam fod y broses beillio mor bwysig?**

Trwy beillio mae planhigion newydd yn cael eu gwneud - ffrwythau i ni eu bwyta a hadau i greu planhigion newydd.

# TRYSORAU CYMRU



## RHWYDWAITH BEICIO CENEDLAETHOL CYMRU

**Mae 1,690 milltir o lwybrau beicio yng Nghymru ac mae elusen Sustrans yn edrych ar eu hôl. Sustrans sydd hefyd yn gyfrifol am drefnu THE BIG PEDAL, i annog plant i feicio neu gerdded i'r ysgol.**

sustrans BIG PEDAL 2021 19–30 Ebrill



**Mae Sustrans yn gweithio'n agos gyda chymunedau, Llywodraeth Cymru, a phartneriaid i sicrhau bod gan bobl Cymru fynediad at lwybrau cerdded a beicio diogel.**

Mae cael rhwydwaith beicio cenedlaethol yn bwysig i wneud Cymru yn lle iach a hapus i fyw, gweithio a chwarae. Cyfres o lwybrau di-draffig a llwybrau beicio a cherdded ar lonydd distaw sy'n cynnig cyfleoedd i deithio o ddydd i ddydd, cael anturiaethau a chwarae yw'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru yn ôl yr elusen. Ar wefan Sustrans mae mapiau a manylion am lwybrau beicio ym mhob cwr o Gymru, felly estyn dy feic, dy helmed, ac i ffwrdd a ti...!



Am fwy o fanylion clicia ar y linc yma: Ein gwaith yng Nghymru - [Sustrans.org.uk](Sustrans.org.uk).




# GWIBIO TRWY AMSER



# AR DY FEIC!

**Ym mis Mai bydd nifer fawr ohonoch yn mynd i'r ysgol ar eich beiciau gan y byddwn yn dathlu Diwrnod Beicio i'r Ysgol. Ond o ble daeth y beic tybed?**



## LLOSGFYNYDD A BEIC

### Beth yw'r cysylltiad rhwng llosgfynydd a beic?

Wel, yn 1815 yn Indonesia ffrwydrodd llosgfynydd Tambora. Roedd yn ddigwyddiad ofnadwy gan i lwch wasgaru dros Ewrop. Roedd y llwch folcanig mor drwchus fel ei fod yn cuddio'r haul. Oherwydd hynny methodd llawer o gnydau rhag tyfu. Cafodd y flwyddyn ei galw 'Y Flwyddyn heb Haul'.



### Ceffylau'n llwgu

Bryd hynny wrth gwrs doedd dim ceir, felly i deithio o un lle i'r llall byddai pobl yn marchogaeth (teithio ar gefn ceffylau) neu mewn cert yn cael ei dynnu gan geffyl. Oherwydd bod y cnydau'n methu, nid oedd bwyd yn tyfu ar gyfer y ceffylau. Roedd yn rhaid lladd nifer fawr ohonynt ac aeth y ceffyl yn anifail drud iawn.

### Cymryd lle'r ceffyl

Oherwydd nad oedd digon o geffylau, roedd yn rhaid meddwl am ddull arall o deithio. Cafodd Almaenwr o'r enw'r Barwn Karl von Drais yr ateb i'r broblem drwy ddyfeisio'r beic cyntaf.





## Y TOUR DE FRANCE

Ras feics enwog yw'r Tour de France, ac mae'n digwydd yn Ffrainc ers y flwyddyn 1903. Geraint Thomas, y Cymro, enillodd y Tour de France yn 2018.

## Y BEIC CYNTAF

**Pwy ddyfeisiodd y beic cyntaf?**
Y Barwn Karl von Drais.

**Pryd oedd hyn?** 1817

**O beth cafodd ei wneud?**
Pren, ac roedd yn pwyso 22kg

**Sut un oedd y beic cyntaf?**
Doedd dim pedalau arno, ac roedd yn rhaid gwthio'r beic gyda'r traed.


Barwn Karl von Drais

**O ble daw'r gair 'beic'?**
Daw'r gair o'r gair 'bi-kuklos', 'bi' - (dau) a 'kuklos' ('olwyn' yn iaith Groeg) sy'n creu 'bikuklos ('bicycle' yn Saesneg a 'beic' yn Gymraeg).




## Y BEIC PENI-FFARDDIN

Rhwng 1860 a 1880 daeth y beic peni-ffarddin yn boblogaidd yn Ffrainc a Gwledydd Prydain. Roedd gan y rhain olwyn flaen fawr, a phedalau i yrru'r olwyn honno. Ond roedd y sedd yn uchel iawn ac felly roedd yn anodd mynd ar y beic a dod i ffwrdd oddi-arno. Roedd uchder y sedd hefyd yn ei wneud yn eithaf peryglus, gan fod y llawr cymaint â 1.5m oddi wrth y sedd!

**Pam yr enw?**

Roedd olwyn flaen y beic yn fawr a'r olwyn gefn yn fach, ac felly byddai pobl yn gweld yr olwynion yn debyg i'r gwahaniaeth rhwng maint ceiniog ar y pryd, a maint ffarddin (chwarter ceiniog).



### ERTHYGLAU A DYDDIADAU MEWN RHIFYNAU BLAENOROL O'R *CLICIADUR*

**500:** Dewi Sant (Rhifyn 1)
**1136:** Cestyll Cymru (Rhifyn 3)
**1858-1920:** Syr O.M.Edwards (Rhifyn 15)
**1859:** Trychineb *Y Royal Charter* (Rhifyn 8)
**1867-1934:** Marie Curie (Rhifyn 7)
**1912:** Cyrraedd Pegwn y De (Rhifyn 6)
**1914:** Cadoediad Dydd Nadolig yn ffosydd y Rhyfel Byd 1af (Rhifyn 5)
**1942-1945:** Anne Frank (Rhifyn 9)
**1948:** Sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd (Rhifyn 4)
**1960au:** Chwyldro'r Chwedegau (Rhifyn 2)
**1af Tachwedd:** Calan Gaeaf
**Nadolig**: Traddodiadau'r Nadolig (Rhifyn 11)
**Dŵr yn dy wneud yn well** (Rhifyn 12)
**Anifeiliaid Arwrol** (Rhifyn 13)
**Byrddau Iechyd Cymru** (Rhifyn 14)
**Hanes Pobl Dduon Cymru** (Rhifyn 16)
**Duwiau'r hen fyd** (Rhifyn 17)
**Arwyr tawel** (Rhifyn 18)
**Archeolegwyr** (Rhifyn 19)

# CHWARAEON

## CYMRU YN YR EUROS

Flwyddyn yn hwyr oherwydd coronafeirws, bydd pencampwriaethau pêl-droed yr Euros 2021 yn cael eu cynnal mewn 12 o wledydd Ewropeaidd gwahanol, gan gychwyn yn Rhufain ar 11eg Mehefin. Bydd y rowndiau cynderfynol a therfynol yn cael eu chwarae yn Wembley, Lloegr gan orffen ar 11eg Gorffennaf. Ar hyn o bryd bydd rhai cefnogwyr yn cael gwylio'r gemau yn fyw, a'r gobaith ydi y bydd cyfyngiadau Covid-19 wedi dod i ben fel bod Wembley yn cael bod yn llawn o bobl ar gyfer y ffeinal.

| GRŴP A | GRŴP B |
|---|---|
| YR EIDAL | GWLAD BELG |
| Y SWISTIR | DENMARC |
| TWRCI | Y FFINDIR |
| CYMRU | RWSIA |

| GRŴP C | GRŴP D |
|---|---|
| AWSTRIA | CROATIA |
| YR ISELDIROEDD | GWERINIAETH SIEC |
| GOGLEDD MACEDONIA | LLOEGR |
| YR WCRAIN | YR ALBAN |

| GRŴP E | GRŴP F |
|---|---|
| GWLAD PŴYL | FFRAINC |
| SLOFACIA | YR ALMAEN |
| SBAEN | HWNGARI |
| SWEDEN | PORTIWGAL |

### GEMAU CYMRU

Dydd Sadwrn, Mehefin 12fed.
**CYMRU v Y SWISTIR**
2:00pm Baku

Dydd Mercher, Mehefin 16eg.
**TWRCI v CYMRU**
5:00pm Baku

Dydd Sul, Mehefin 20fed.
**YR EIDAL v CYMRU**
5:00pm Rhufain

*Bydd y 2 dîm gorau ymhob grŵp, ynghŷd â 4 o'r timau ddaeth yn drydydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.* **POB LWC CYMRU!**

## TI'N SEREN!

### Meilyg o Ben Llŷn

**Ein SEREN ar gyfer y Rhifyn yma ydi Meilyg o Ben Llŷn, sydd am ddweud ychydig o'i hanes yn cadw gwenyn.**





**Dweud ychydig o hanes y gwenyn sydd gen ti...**

Mae Elin fy chwaer, fy nhad a finnau wedi bod yn cadw gwenyn yma ers tua 8 mlynedd. Un cwch oedd gynnon ni i ddechrau ond erbyn rŵan mae gynnon ni 3 cwch.

**Pa fath o offer wyt ti ei angen i edrych ar ôl gwenyn?**

Mae llawer yn meddwl bod cadw gwenyn yn beth cymhleth ac anodd a bod angen llawer o offer ond does dim angen llawer o offer mewn gwirionedd - cwch, cyllell finiog i dorri'r cwyr, casgen i gasglu'r mêl, gogor i hidlo'r mêl a photiau i'w gadw.



**Beth wyt ti'n ei weld yn ddiddorol am wenyn?**

Dw i'n licio'r ffordd maen nhw'n gweithio a chydweithio. Yn yr haf mae cwch gwenyn arferol yn medru cynnwys 60,000 a mwy o wenyn. Mae meddwl am rain i gyd mewn un cwch gwenyn yn anhygoel. Dw i'n licio gweld sut maen nhw'n creu'r crwybr (yn yr hecsagonau bach yn hwn mae'r mêl yn cael ei gadw).

Dwi hefyd yn mwynhau cystadlu hefo'r mêl yn sioe Y Ffôr ac wedi cael y wobr gyntaf fwy nag unwaith!



**Pam fod gwenyn mor bwysig i'r blaned?**

Mae angen gwenyn i beillio blodau a phlanhigion. Mae llawer o'r cnydau yr ydyn ni'n eu bwyta yn dibynnu ar wenyn i'w peillio.

**Wyt ti'n cael dy bigo'n aml?**

Dw i 'rioed wedi cael fy mhigo, ond dw i wedi gweld fy nhad yn cael ei bigo fwy nag unwaith ond ei fai o ydi hynny rhan amlaf gan ei fod yn mentro atyn nhw heb siwt gwenynwr.






Bydd dau rifyn o'r *Cliciadur* yn ymddangos ar Hwb bob tymor. Bydd y rhifyn nesaf ar gael ddydd Llun 21ain Mehefin.
Cofia gysylltu drwy e-bostio cliciadur@cynnal.co.uk - byddwn wrth ein boddau yn clywed dy farn a dy syniadau.